
Hysbysiad Astudiaeth o'r Farchnad

Gwasanaethau Cwmwl

Dyddiad cyhoeddi: 6 Hydref 2022

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 3 Tachwedd 2022

Hysbysiad Astudiaeth o'r Farchnad

Gwasanaethau Cwmwl

Mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau (y cyfeirir atynt yn yr hysbysiad hwn fel "**Ofcom**") yn cyhoeddi'r hysbysiad astudiaeth o'r farchnad hwn yn unol ag adran 130A Deddf Menter 2002 ("**EA 2022**") fel y'i diwygiwyd a'i chymhwyswyd gan adran 370 Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("**CA 2003**").

1. Mae gan Ofcom bwerau cydamserol gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ("**CMA**") mewn perthynas ag astudiaethau marchnad o dan Ran 4 EA 2002 (gyda rhai eithriadau): gweler adran 370 CA 2003. Mae Ofcom wedi ymgynghori â'r CMA ar arfer ei bwerau, yn unol â gofynion adran 370(5) CA 2003.
2. Mae Ofcom yn bwriadu cyflawni ei swyddogaethau o dan adran 1(3) CA 2003 mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Cwmwl yn y Deyrnas Unedig, i ystyried i ba raddau y mae mater mewn perthynas â gweithgareddau masnachol sy'n gysylltiedig â materion cyfathrebu¹ yn meddu ar neu a allai fod ag effeithiau niweidiol ar fuddiannau defnyddwyr, ac i asesu i ba raddau y gellir ac y dylid cymryd camau i gywiro, lliniaru neu atal unrhyw effeithiau andwyol o'r fath.
3. Yn yr hysbysiad hwn ystyr 'Gwasanaethau Cwmwl' yw'r holl wasanaethau sy'n ymwneud â darparu cyfrifiadura cwmwl. Ystyr 'Cyfrifiadura Cwmwl' yw darparu mynediad o bell at adnoddau cyfrifiadurol (cyfrifiadura, storio a rhwydweithio) ar-alw a thros rwydwaith.
4. Darperir rhagor o fanylion yr astudiaeth farchnad i Wasanaethau Cwmwl, gan gynnwys materion manwl y byddai Ofcom yn croesawu ymatebion arnynt, yn y [ddogfen Cais am Fewnbwn](#) a gyhoeddir ochr yn ochr â'r hysbysiad hwn.
5. Mae Ofcom bellach yn gwahodd unrhyw bersonau sy'n dymuno cyflwyno sylwadau ar y mater, gan gynnwys a ddylai Ofcom wneud atgyfeiriad ymchwiliad i'r farchnad o dan adran 131 EA 2002, i wneud hynny yn ysgrifenedig erbyn 3 Tachwedd 2022 fan hwyraf.
6. Os yw Ofcom yn bwriadu gwneud atgyfeiriad ymchwiliad i'r farchnad neu os yw cynrychiolaeth (fel y darperir ar ei chyfer yn adran 131A EA 2002) wedi'i gwneud i Ofcom y dylid gwneud y fath atgyfeiriad ond bod Ofcom yn cynnig peidio â gwneud un, bydd Ofcom yn cyhoeddi hysbysiad o'r cynnig hwnnw ac yn dechrau'r broses ymgynghori o dan adran 131A(2)(b) EA 2002 erbyn 5 Ebrill 2023.

¹ O fewn yr ystyr a roddir gan adran 369(1) CA 2003.

7. Ac eithrio lle mae paragraff 6 yn berthnasol, os bydd Ofcom yn penderfynu peidio â gwneud atgyfeiriad ymchwiliad i'r farchnad o dan adran 131 EA 2002 bydd Ofcom yn cyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw erbyn 5 Ebrill 2023 fan bellaf.
8. Bydd Ofcom yn cyhoeddi ei hadroddiad astudiaeth o'r farchnad, gan nodi ei chanfyddiadau mewn perthynas â'r mater a bennir yn yr hysbysiad hwn, a'r camau (os o gwbl) y mae Ofcom yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r mater hwnnw, erbyn 5 Hydref 2023 fan hwyraf.

6 Hydref 2022

Y Swyddfa Gyfathrebiadau

Nodiadau

- (i) Dylid cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig i Warwick Izzard (Rheolwr Prosiect) yn cloudservices@ofcom.org.uk.
- (ii) Rhoddir copi o'r hysbysiad hwn ar wefan Ofcom ar y dudalen Astudiaeth o'r Farchnad Gwasanaethau Cwmwl ar 6 Hydref 2022.